

Fframwaith Ansawdd Adnoddau Dysgu Addysg Bellach yng Nghymru



Cefnogir gan
Lywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government



Rhagarweiniad

Mae gan Lyfrgelloedd / Gwasanaethau Adnoddau Dysgu (GAD) swyddogaeth graidd o fewn Colegau Addysg Bellach (AB). Bwriedir i'r fframwaith hwn lenwi'r bwlch yng nghyswllt gwerthuso gwasanaethau llyfrgell ac adnoddau dysgu colegau. Dyma fwch a grëwyd yn rhannol drwy newidiadau i gyfundrefn arolygu AB Estyn (nad yw bellach yn edrych ar adnoddau dysgu fel maen prawf i'w arolygu ar wahân) ac oherwydd y cyhoeddwyd y fframwaith ansawdd AB diwethaf ddeng mlynedd yn ôl (*Gwasanaethau yn cefnogi dysgu yng Nghymru*, fforwm, 2007). Mae cynnwys y fframwaith hwn yn adlewyrchu'r newidiadau a gymerodd le yn narpariaeth a chyflwyniad gwasanaethau adnoddau dysgu AB yn ystod y deng mlynedd a basiodd.

Cynhyrchwyd y fframwaith hwn mewn cydweithrediad a Rhwydwaith Rheolwyr Adnoddau Dysgu AB Cymru a gyda nawdd gan Adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd (AAAL) Llywodraeth Cymru. Mae'r fframwaith yn tynnu ar waith blaenorol ar dwlchys ansawdd a ddatblygwyd yn yr Alban, Lloegr a Chymru. Mae'r fframwaith hefyd yn tynnu ar, ymhellach, arferion da mewn sectorau llyfrgell eraill, yn arbennig felly *Llyfrgelloedd yn gwneud gwahaniaeth: pumed fframwaith ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru 2014-2017* (Llywodraeth Cymru, 2017), y *NHS Library Quality Assurance Framework (LQAF) for England* a *How good is our public library service* (2014) gan Gyngor Llyfrgelloedd a Gwybodaeth yr Alban (Scottish Library and Information Council (SLIC)).

Darpara'r fframwaith strwythur asesu ansawdd dibynadwy ar gyfer gwasanaethau llyfrgell/adnoddau dysgu colegau. Nid oes disgwyl, er hynny, am gwrdd â'r holl feini prawf oherwydd bod darpariaeth adnoddau dysgu AB yn amrywio ar draws y sector, ac ni fydd rhai adrannau'r fframwaith yn berthnasol i rai gwasanaethau. Fe fydd y fframwaith, ymhellach, yn dangos os fydd Gwasanaeth Adnoddau Dysgu (GAD) yn cydymffurfio ai peidio efo safonau cenedlaethol ac os yw'n addas i'w swyddogaeth yng nghyfundrefn addysg yr 21ain ganrif. Ar ben hynny, fe fydd hunan asesu yn erbyn y fframwaith yn cefnogi gwasanaethau llyfrgell/adnoddau dysgu i adnabod unrhyw fylchau yn narpariaeth eu gwasanaethau ac yn caniatáu gwell cynllunio ac adolygu gwasanaethau.

Cydnabyddiaethau

Cyfrannodd y bobl ddilynol at ddatblygiad y fframwaith hwn:

| | |
|------------------------------------|---|
| Dr Andrew Eynon (GLLM) | Golygydd ac awdur |
| Aled Rees (GLLM) | Awdur, prawf ddarllenydd a chyfieithydd |
| Rhwydwaith Rheolwyr Adnoddau Dysgu | Cyfranwyr |

Cysylltwch ag Andrew Eynon (a.eynon@gllm.ac.uk) os oes gennych unrhyw gwestiynau yng nghyswllt y twlcit hwn.

Safonau a meini prawf

Mae'r fframwaith yn gwerthuso darpariaeth gwasanaethau llyfrgell/adnoddau dysgu ar draws ystod o ddulliau cyflwyno. Mae'r meini prawf unigol wedi'i mapio i *Ganllawiau ar gyfer arolygu addysg bellach o Fedi 2015* Estyn (2015). Ni ymdriniwyd â Chwestiwn Allweddol 1 (Pa mor dda yw deilliannau?) ar wahân ond yn hytrach fe ellir ei arddangos drwy gwrdd â dangosyddion effaith dibynadwy a osodwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2. Mae'r fframwaith yn gwerthuso'r meini prawf canlynol:

1 Pa mor dda yw'r darpariaeth llyfrgell/adnoddau dysgu (Cwestiwn Allweddol Estyn 2)?

1.1 Profiad dysgu (2.1)

- 1.1.1 Sut mae'r gwasanaeth yn cwrdd ag anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned yn gyffredinol?
- 1.1.2 Sut mae'r gwasanaeth yn cefnogi datblygiad sgiliau dysgwyr?
- 1.1.3 Sut mae'r gwasanaeth yn cefnogi dwyieithrwydd a hyrwyddo diwylliant Cymreig?
- 1.1.4 Sut mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo dinasyddiaeth fyd-eang a datblygiad cynaliadwy?

1.2 Cefnogi addysgu (2.2)

- 1.2.1 Sut mae'r gwasanaeth yn cwrdd ag anghenion staff dysgu?
- 1.2.2 Sut mae'r gwasanaeth yn ymgysylltu â'r cwricwlwm?

1.3 Cefnogi dysgu (2.3)

- 1.3.1 Sut mae'r gwasanaeth yn cefnogi cynlluniau llythrennedd?
- 1.3.2 Sut mae'r gwasanaeth yn hybu iechyd a lles?

1.4 Yr amgylchedd ddysgu (2.4)

- 1.4.1 Sut mae'r gwasanaeth yn hybu cynhwysiad?
- 1.4.2 Sut mae'r gwasanaeth yn darparu ar gyfer amrywiol arddulliau a blaenoriaethau dysgu?
- 1.4.3 A oes yna adnoddau digonol i gwrdd ag anghenion dysgwyr?
- 1.4.4 A yw cyfleusterau ac offer yn gyfredol?
- 1.4.5 A yw cyfleusterau yn ysgogol ac wedi'u cynnal yn dda?
- 1.4.6 Pa mor effeithiol yw'r gwasanaeth o ran defnyddio a hyrwyddo e-adnoddau ac e-ddysgu?

2 Pa mor dda yw arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth llyfrgell / adnoddau dysgu (Cwestiwn Allweddol Estyn 3)?

2.1 Arweinyddiaeth (3.1)

- 2.1.1 Pa mor effeithiol yw uwch reolaeth llinell y gwasanaeth?
- 2.1.2 Pa mor effeithiol y bydd pennaeth y gwasanaeth yn rheoli ei amser ef/hi i flaenoriaethu gweithgarwch yn addas?
- 2.1.3 Pa mor effeithiol yw cyfarfodydd, a gynhelir gan y gwasanaeth, i wella cyflwyniad gwasanaethau?
- 2.1.4 Pa mor effeithiol yw cyfathrebu oddi fewn i, a gan, y gwasanaeth?

2.2 Gwella ansawdd (3.2)

- 2.2.1 Pa mor effeithiol yw'r gwasanaeth mewn cynnwys adborth dysgwyr i'w gynllunio a chyflwyno?
- 2.2.2 Pa mor effeithiol yw'r gwasanaeth mewn ymateb i faterion/pryderon a godir?
- 2.2.3. Pa mor ddibynadwy yw hunan-asesu'r gwasanaeth?

2.3 Gweithio mewn Partneriaeth (3.3)

- 2.3.1 A yw'r gwasanaeth yn ymgysylltu mewn gweithio mewn partneriaeth a beth yw'r buddion?
- 2.3.2 Pa mor effeithiol y mae'r gwasanaeth yn ymgysylltu mewn darparu adnoddau ar y cyd, e.e. ar gyfer cyrsiau addysg uwch?

2.4 Rheoli Adnoddau (3.4)

- 2.4.1 A yw natur staffio'r gwasanaeth yn addas?
- 2.4.2 A gefnogir staff i ymgymryd â datblygu staff parhaus?
- 2.4.3 A rennir ymarfer da gan y gwasanaeth yn effeithiol oddi fewn i a thu allan i'r sefydliad?
- 2.4.4 Sut y mae'r gwasanaeth yn rheoli yn effeithiol adnoddau dysgu?
- 2.4.5 A yw'r gwasanaeth yn sicrhau gwerth gorau?

Arfarniadau

Mae hunan-asesu yn erbyn y fframwaith yn defnyddio'r un meini prawf asesu a ddefnyddir gan Estyn:

| | |
|-------------|--|
| Rhagorol | Cryfderau niferus, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer blaengar yn y sector. |
| Da | Cryfderau niferus heb unrhyw adrannau pwysig angen gwella arwyddocaol. |
| Derbyniol | Mae cryfderau yn fwy niferus nac adrannau sydd angen gwelliant. |
| Annerbyniol | Mae adrannau pwysig sydd angen eu gwella yn fwy niferus na chryfderau. |

1. Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

1.1 Y profiad dysgu

| Awgrym Allweddol | Dangosydd Effaith | Dangosydd Cyflawniad | Tystiolaeth |
|---|---|---|---|
| 1.1.1 Sut mae'r gwasanaeth yn cwrdd ag anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned yn gyffredinol? | | | |
| I ba raddau a fodlonir anghenion pob dysgwr? | Mae'r mwyafrif o ddysgwyr yn aelodau gweithredol o'r llyfrgell, yn defnyddio adnoddau ar-lein neu yn defnyddio gwasanaethau / gyfleusterau adnoddau dysgu | Cyfradd cymeradwyaeth i'r gwasanaeth o 90% yn arolygon coleg | Adborth o'r coleg neu wasanaeth: Arolygon dysgwyr Paneli dysgwyr Grwpiau Ffocws |
| Sut y gwahaniaethir gwasanaethau i gwrdd ag anghenion gwahanol fathau o ddysgwyr e.e. llawn amser, rhan amser, dysgwyr aeddfed, AB/AU ac ati? | Mae dysgwyr yn cymryd rhan weithredol yn y prosesau gwneud penderfyniadau a/neu gynllunio o fewn y gwasanaeth | Oriau agored yn cwrdd ag anghenion dysgwyr (lleiafswm o 50 awr yr wythnos, yn ystod y tymor Mae cyfleusterau astudio yn addas at unigolion a grwpiau. Mae gwasanaethau neu gefnogaeth ar gael tu allan i oriau craidd, e.e. mynediad at adnoddau neu gefnogaeth ar-lein | Oriau agored a hysbysebir Adroddiad/arolwg defnydd gofod Adolygiad Gofod Dysgu y JISC Cefnogaeth ar-lein, e.e. drwy gyfrwng yr Amgylchedd Dysgu Rhith (ADRh) |

| Awgrym Allweddol | Dangosydd Effaith | Dangosydd Cyflawniad | Tystiolaeth |
|---|---|--|---|
| Sut mae'r gwasanaeth yn cwrdd ag anghenion y gymuned eang y mae'r coleg yn ei wasanaethu? | Mae yna dystiolaeth o ddeilliannau positif o ddefnydd o wasanaethau ac adnoddau gan y gymuned yn gyffredinol | Mae'r gwasanaeth yn aelod gweithredol o gynllun cyfnewidiog i gefnogi mynediad / benthyca | Ffigyrau Aelodaeth Allanol |
| A yw'r gwasanaeth yn ymgysylltu yn weithredol â chyflogwyr a dysgwyr yn y gweithle? | Mae yna dystiolaeth eglur o ddefnydd o'r gwasanaeth gan ddysgwyr yn y gweithle a'u haseswyr | Darperir cefnogaeth ac adnoddau i ddysgwyr a staff nad ydynt yn ymweld yn rheolaidd â'r coleg. | Trefniadau arbennig am i ddysgwyr yn y gweithle a staff allu benthyca adnoddau Hyrwyddo a defnydd o e-adnoddau |
| 1.1.2 Sut mae'r gwasanaeth yn cefnogi datblygiad sgiliau dysgwyr? | | | |
| A yw'r gwasanaeth yn cyflwyno cefnogaeth a hyfforddiant yng nghyswllt sgiliau gwybodaeth, astudio a chyflogadwyedd? | Darpara'r gwasanaeth hyfforddiant a chefnogaeth mewn ystod eang o sgiliau, gyda chyfranogiad da a deilliannau positif (e.e. ennill neu ymestyn sgiliau) | Mae'r gwasanaeth yn cyflwyno 100 o sesiynau wyneb-yn-wyneb yn flynyddol (50 ar gyfer colegau o faint canolig / bach), ar draws ystod o destunau. Gan eithrio, hynny yw, anwytho i'r llyfrgell. | Data sgiliau astudio Adborth dysgwyr e.e. ffurflenni gwerthuso Adborth staff |

| Awgrym Allweddol | Dangosydd Effaith | Dangosydd Cyflawniad | Tystiolaeth |
|---|--|---|---|
| 1.1.3 Sut mae'r gwasanaeth yn cefnogi dwyieithrwydd a hybu diwylliant Cymreig? | | | |
| A yw'r gwasanaeth yn ymlynu at Safonau Iaith Cymru; a yw arwyddion a deunyddiau cefnogol ar gael yn ddwyieithog? | Rhoddir sylw cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg. | Mae arwyddion oll yn ddwyieithog Cynhyrchir deunyddiau arweiniol cyffredinol yn ymwneud â'r gwasanaeth (yn brintiedig ac ar-lein) yn ddwyieithog | Arwyddion Deunyddiau cefnogol |
| A oes yna nifer digonol o staff dwyieithog? | Darpara'r gwasanaeth gefnogaeth yn ddwyieithog (rheng flaen, un-wrth-un neu mewn sesiwn grŵp) pan ofynnir am ef. | Gallai'r gwasanaeth ymgymryd â phob ymholiad neu gais drwy gyfrwng y Gymraeg un ai yn bersonol neu yn electronig. | Cofnodau o ymholiadau neu gefnogaeth, gohebiaeth ac ati. |
| Pa mor weithredol y mae'r gwasanaeth yn ymgymryd â derbyn a hyrwyddo adnoddau yn y Gymraeg (ac adnoddau eraill yn ymwneud a'r Gymraeg)? | Mae tiwtoriaid a dysgwyr yn ceisio am ac yn defnyddio adnoddau yn y Gymraeg neu yn ymwneud â Chymru. | Mae gan y gwasanaeth gasgliadau yn y Gymraeg ac yn ymwneud â Chymru sydd wedi'i arwyddo yn amlwg ac mae yn a thystiolaeth eglur o ddefnydd ohono. | Manylion stoc. Ffigyrau defnydd |
| I ba raddau y mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo datblygiad gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru? | Ystyrir y gwasanaeth gan reolwyr y coleg yn gyfranogwr allweddol at hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig oddi fewn i'r sefydliad. | Mae dysgwyr yn ymgysylltu â gweithgareddau a drefnir gan y gwasanaeth, yn ymwneud a hyrwyddo'r iaith Gymraeg ac adnoddau yn ymwneud â | Cofnodau neu fanylion calendr o weithgarwch neu ddigwyddiadau Adborth tiwtor/ddysgwr |

| | | | |
|--|---|--|---|
| | | Chymru. Defnyddia dysgwyr hwn yn eu gwaith cwrs a/neu weithgareddau du allan i'r cwricwlwm. | Hyfforddiant dwyieithog |
| Awgrym Allweddol | Dangosydd Effaith | Dangosydd Cyflawniad | Tystiolaeth |
| 1.1.4 Sut mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo dinasyddiaeth fyd eang a datblygiad cynaliadwy? | | | |
| A yw'r gwasanaeth yn cefnogi yn weithredol gweithgarwch cwricwlwm a thu allan i'r cwricwlwm sy'n helpu dysgwyr i ddatblygu'r wybodaeth, sgiliau a gwerthoedd sy'n ymwneud a CDADF? | Ystyria rheolwyr y coleg y gwasanaeth yn gyfranogwr allweddol at hyrwyddo CDADF o fewn y sefydliad. | Mae dysgwyr yn ymgysylltu â gweithgarwch CDADF a gyflwynir gan dy wasanaeth. Defnyddia dysgwyr hwn yn eu gwaith cwrs a/neu weithgareddau du allan i'r cwricwlwm. | Cofnodau neu fanylion calendr o weithgarwch neu ddigwyddiadau Adborth tiwtor/ddysgwr |

1.2 Cefnogi addysgu

| Awgrym Allweddol | Dangosydd Effaith | Dangosydd Cyflawniad | Tystiolaeth |
|---|---|---|--|
| 1.2.1 Sut mae'r gwasanaeth yn cwrdd ag anghenion staff dysgu? | | | |
| A ddarpara'r gwasanaeth anwytho cynhwysfawr ar gyfer staff dysgu (newydd)? | Mae presenoldeb yn yr anwytho gan staff dysgu yn dda iawn ac mae yna dystiolaeth eglur i ddangos bod staff dysgu yn gwneud defnydd da o'r gwasanaeth o ganlyniad i'r anwytho. | Cynigir anwytho llyfrgell i bob aelod newydd o staff dysgu. | Data anwytho |
| A gynigia'r gwasanaeth weithgareddau datblygu staff ar gyfer staff dysgu? | Bydd staff dysgu yn bresennol yn rheolaidd mewn sesiynau a gynigir gan y gwasanaeth a byddant yn weithredol yn hyrwyddo'r gwasanaethau, cyfleusterau a chefnogaeth a gynigir. | Darpara'r gwasanaeth raglen o sesiynau hyfforddiant ar gyfer staff a/neu darperir sesiynau rheolaidd byrfyfyr neu wedi'i theilwra. | Cofnodau datblygu staff Ffurflenni gwerthuso hyfforddiant |
| 1.2.2 Sut mae'r gwasanaeth yn ymgysylltu a'r cwricwlwm? | | | |
| A fydd y gwasanaeth yn cynnal cyfarfodydd ymgynghorol yn rheolaidd a'r staff dysgu? | Bydd tiwtoriaid yn ymgysylltu yn weithredol ym mhrosesau gwneud penderfyniadau a chynllunio o fewn y gwasanaeth. | Cynhelir o leiaf un cyfarfod fesul tymor rhwng y gwasanaeth a staff cwricwlwm. Ceir tystiolaeth o weithredu ar awgrymiadau neu gyfraniadau staff dysgu. | Cofnodion cyfarfodydd |

| Awgrym Allweddol | Dangosydd Effaith | Dangosydd Cyflawniad | Tystiolaeth |
|---|---|---|--|
| A fydd meysydd cwricwlwm yn gwahodd staff y gwasanaeth i roi mewnbwn i gyfarfodydd rhaglen neu achlysuron cynllunio / hyfforddi? | Bydd staff y gwasanaeth yn cyfrannu'n rheolaidd at gyfarfodydd rhaglen / achlysuron hyfforddi | Mae gan staff y gwasanaeth fewnbwn i gyfarfodydd rhaglen a/neu achlysuron hyfforddi o fewn pob maes rhaglen o leiaf unwaith pob blwyddyn academaidd. | Cofnodion cyfarfodydd Ffurflenni gwerthuso hyfforddiant |
| A fydd staff y gwasanaeth yn cydweithio a staff cwricwlwm er datblygu adnoddau e-ddysgu neu ychwanegu cynnwys i'r Amgylchedd Ddysgu Rhith (ADRh)? | Mae'r gwasanaeth yn ganolog i ddatblygiad adnoddau e-ddysgu a/neu y ADRh | Mae gan y gwasanaeth gyfrifoldeb am weinyddu a/neu gefnogi datblygiad adnoddau e-ddysgu (oni bai am y rheini a ddatblygwyd o fewn tîm cwrs ac ond ar gael ar eu tudalennau hwy oddi fewn y ADRh). | Amgylchedd Ddysgu Rhith (ADRh) Adnoddau e-ddysgu Strategaeth TGD |

1.3 Cefnogi dysgu

| Awgrym Allweddol | Dangosydd Effaith | Dangosydd Cyflawniad | Tystiolaeth |
|--|--|---|--|
| 1.3.1 Sut fydd y gwasanaeth yn cefnogi cynlluniau cefnogi llythrennedd? | | | |
| A yw'r gwasanaeth yn ymgysylltu yn weithredol er cefnogi cynlluniau cefnogi llythrennedd, e.e. 'Darllen Ymlaen' oddi fewn y coleg? | Mae'r coleg yn cefnogi yn weithredol ymgysylltiad dysgwyr mewn cynlluniau llythrennedd a gynigir gan y gwasanaeth | Bydd dros 100 dysgwr (50 mewn colegau llai/canolig) yn cwblhau'r her Darllen Ymlaen (neu fenter fewnol, debyg) | Data Darllen Ymlaen |
| Pa mor effeithiol y bydd y gwasanaeth yn ymgymryd â gweithgareddau datblygu darllenwyr eraill? | Cysylltir gweithgareddau datblygu darllenwyr yn agos a'r cwricwlwm ac fe'i cefnogir yn weithredol gan diwtoriaid a dysgwyr | Mae yna dystiolaeth ddibynadwy o ddefnydd cynyddol o ddeunydd darllen cwrs a/neu hamdden, o ganlyniad uniongyrchol i weithgareddau datblygu darllenwyr. | Rhaglen o weithgareddau / achlysuron datblygu darllenwyr |
| 1.3.2 Sut fydd y gwasanaeth yn hybu iechyd a lles? | | | |
| A yw'r gwasanaeth yn ymgysylltu yn weithredol i hybu iechyd a lles? | Ystyria rheolwyr y coleg bod y gwasanaeth yn cyfrannu'n allweddol at hybu iechyd a lles oddi fewn y sefydliad. | Bydd y gwasanaeth yn trefnu yn rhagweithiol gweithgareddau iechyd a lles fydd a chysylltiad agos a'r cwricwlwm, ac a gefnogir yn weithredol gan diwtoriaid a dysgwyr. | Gweithgareddau iechyd a lles |

1.4 Y profiad dysgu

| Awgrym Allweddol | Dangosydd Effaith | Dangosydd Cyflawniad | Tystiolaeth |
|--|--|---|---|
| 1.4.1 Sut bydd y gwasanaeth yn hyrwyddo bod yn gynhwysol? | | | |
| A oes ethos cynhwysol i'r gwasanaeth? | Mae cynllunio a chyflwyno'r gwasanaeth yn cymryd i ystyriaeth, yn weithredol, amryfal anghenion defnyddwyr. | Bydd cynlluniau'r gwasanaeth yn cyfeirio yn eglur at anghenion penodol defnyddwyr | Cynlluniau gwasanaeth |
| Pa mor hygyrch yw gwasanaethau a chyfleusterau i ddysgwyr a staff? | Bydd tiwtoriaid a dysgwyr yn defnyddio i'w mantais hwythau adnoddau mewn ystod o gyfryngau | Bydd adnoddau ar gael mewn ystod o gyfryngau ac ar wahanol lefelau ac yn seiliedig ar ofyn (e.e. braille, sain, fideo, print bras, ac ati). Bydd adnoddau ar-lein ar gael oddi ar gampws y coleg. | Daliadau stoc Ffigyrau defnydd Llais y dysgwr |
| A fydd y gwasanaeth yn defnyddio technoleg addasol a darparu cyfleusterau addas er cefnogi ei ddefnyddwyr? | Darpara'r gwasanaeth ystod o dechnolegau addasol ac addasiadau i gyfleusterau yn seiliedig ar ymarfer da ym maes ymwybyddiaeth anabledd. | Mae gan bob canolfan neu gampws dechnolegau addasol a dodrefn sy'n addas at anghenion a gofynion lleol | Cyfleusterau'r gwasanaeth llyfrgell |

| Awgrym Allweddol | Dangosydd Effaith | Dangosydd Cyflawniad | Tystiolaeth |
|--|--|--|---------------------------------------|
| 1.4.2 Sut fydd y gwasanaeth yn darparu ar gyfer amryfal arddulliau neu ddewisiadau dysgu? | | | |
| A fydd y gwasanaeth yn darparu amgylchedd dysgu sy'n addas i ystod o arddulliau a galluoedd dysgu? | Bydd y gwasanaeth yn hwyluso yn weithredol ystod o arddulliau dysgu sydd o fudd i ddysgwyr | Darpara'r gwasanaeth gyfleusterau sy'n addas at ystod o arddulliau dysgu gwahanol, e.e. astudio annibynnol, gwaith grŵp, cyfleusterau TG ac ati. | Llais y Dysgwr |
| 1.4.3 A oes yna adnoddau digonol i gwrdd ag anghenion dysgwyr? | | | |
| A oes yna adnoddau digonol, addas, hygyrch a chyfredol i gwrdd ag anghenion dysgwyr a staff? | Ystyrir adnoddau a ddarperir gan y gwasanaeth yn ganolog i ddysgu ac addysgu. Maent yn addas, yn gyfredol ac fe wneir defnydd helaeth ohonynt. | Mae mwyafrif adnoddau'r llyfrgell yn iau na pum mlwydd oed neu, os ydynt yn hŷn, maent dal yn berthnasol ac yn cael eu defnyddio. | Adroddiadau stoc Llais y dysgwr |
| A oes yna ofod digonol i weithredu'r gwasanaeth; a oes yna lefydd astudio a llefydd TG digonol? | Bydd dysgwyr a thiworiaid yn gwneud defnydd helaeth o'r gofod ac mae'n hwyluso amryfal ddulliau defnydd a dewisiadau dysgu. Prin anaml rhaid gwrthod tiwtoriaid neu ddysgwyr oherwydd diffyg lle neu gyfleusterau anaddas. | Dengys ffigyrau am ddefnydd brig yn ystod y dydd, yn y tymor, oddeutu 90% o gynhwysedd. | Arolygon preswyliaeth / defnydd gofod |

| Awgrym Allweddol | Dangosydd Effaith | Dangosydd Cyflawniad | Tystiolaeth |
|---|--|--|---|
| 1.4.4 A yw cyfleusterau a chyfarpar yn gyfredol? | | | |
| A yw'r gwasanaeth yn darparu dodrefn, caledwedd a chyfarpar sy'n addas a chyfredol? | Mae cyfleusterau yn gyfredol ac fe'i gwerthfawrogir gan staff a dysgwyr. | Mae gan y gwasanaeth gynllun yn ymwneud â dibrisiant ddodrefn ac offer, er sicrhau bod cyfleusterau yn gyfredol. | Cynlluniau gwasanaeth |
| 1.4.5 A yw'r cyfleusterau yn ddeniadol ac wedi'i chynnal yn dda? | | | |
| A fydd y gwasanaeth yn gweithio mewn modd positif gyda dysgwyr i'w ysbrydoli a'u cymell? A anogir dysgwyr i ymddwyn yn gyfrifol a pharchu eraill? | Darpara'r gwasanaeth gyfleusterau a'u hystyri'r yn hanfodol i ddysgu ac addysgu ac fe arweiniant at effaith positif ar ddeilliannau dysgwyr. | Darpara'r gwasanaeth amgylchedd deniadol a ddefnyddir yn gyfrifol gan ddysgwyr | Adroddiadau hunan-asesu'r coleg Llais y dysgwr |
| 1.4.6 Pa mor effeithiol yw'r gwasanaeth yn ei ddefnydd a hyrwyddo o e-adnoddau ac e-ddysgu? | | | |
| A fydd y gwasanaeth yn darparu a hybu ystod addas o e-adnoddau (gyda mynediad atynt oddi ar campws y coleg)? | Fe ddefnyddir e-adnoddau yn helaeth, ac fe'i hymgorfforir yn ADRh y coleg a dulliau ar-lein eraill. | Ceir cyfeiriadau eglur at e-adnoddau ac mae'n hawdd myned atynt | Ffigyrau defnydd Llais y dysgwr |
| A fydd y gwasanaeth yn creu a/neu helpu i greu adnoddau e-ddysgu sydd ar gael oddi ar y campws? | Ystyria rheolwyr y coleg gyfraniad y gwasanaeth yn un allweddol at ddatblygiad adnoddau e-ddysgu. | Mae'r gwasanaeth yn gyfrifol am gefnogi staff sy'n datblygu e-adnoddau a/neu weinyddu eu cynnwys | ADRh E-adnoddau |

2 Pa mor dda yw arweinyddiaeth a rheolaeth y llyfrgell / gwasanaeth adnoddau dysgu?

2.1 Arweinyddiaeth

| Awgrym Allweddol | Dangosydd Effaith | Dangosydd Cyflawniad | Tystiolaeth |
|--|--|--|---|
| 2.1.1 Pa mor effeithiol yw uwch reolaeth y gwasanaeth? | | | |
| A yw'r uwch reolwr gyda chyfrifoldeb am y gwasanaeth, uwch reolwyr eraill a rheolwr y gwasanaeth yn rhoi arwydd eglur o gyfeiriad a hyrwyddo safonau uchel? | Mae yna yn gyffredinol ymwybyddiaeth ymhlith uwch reolwyr ac ymhlith staff yn gyffredinol o amcanion a phwrpas y gwasanaeth. | Mae staff yn gyfarwydd â gwerthoedd sefydliadol a rhai y gwasanaeth. | Cyfarwyddiadau am y gwasanaeth i reolwyr Cynllun gweithredol neu hunan asesiad y gwasanaeth Cofnodion cyfarfodydd coleg |
| A leolir y gwasanaeth yn dda oddi fewn strwythur y sefydliad, gan sicrhau gorchwyl traws-golegol eglur a chynrychiolaeth effeithiol ar lefel rheolaeth uwch? | Cadarnheir swyddogaeth y gwasanaeth wrth gefnogi dysgu ac addysgu drwy ei safle yn y strwythur sefydliadol a chynrychiolaeth addas ar grwpiau a phwyllgorau'r coleg. | Cynrychiolir y gwasanaeth yn dderbyniol ar grwpiau/pwyllgorau allweddol y coleg. | Strwythur sefydliadol a phwyllgorau'r coleg. |
| A fydd rheolwr y gwasanaeth yn cymryd rhan mewn ac y cedwir ef/hi yn hysbys o broses cynllunio strategol y coleg? | Mae rheolwr y gwasanaeth yn cymryd rhan yng nghynllunio gweithredol a strategol y coleg. | Adlewyrchir cyfraniad y gwasanaeth yng nghynlluniau'r coleg. | Cynlluniau'r coleg Cofnodion cyfarfodydd |

| Awgrym Allweddol | Dangosydd Effaith | Dangosydd Cyflawniad | Tystiolaeth |
|---|---|--|--|
| 2.1.2 Pa mor effeithiol fydd pennaeth y gwasanaeth yn rheoli ei amser ef/hi er blaenoriaethu gweithgarwch yn addas? | | | |
| A fydd rheolwr y gwasanaeth yn rheoli ei amser ef/hi er darparu arweiniad a rheolaeth effeithiol i'r gwasanaeth ar lefelau strategol a gweithredol? | Fe fydd rheolwr y gwasanaeth yn rheoli ei amser ef/hi yn addas i arwain a rheoli yn effeithiol yng ngwahanol gyd-destunau'r swydd. | Cyfeirir at y gwasanaeth yng nghynlluniau strategol a gweithredol y coleg. | Cynllun Strategol y Coleg Cynlluniau Gweithredol y Coleg |
| 2.1.3 Pa mor effeithiol yw cyfarfodydd, a gynhelir gan y gwasanaeth, mewn gwella safon y gwasanaeth a gyflwynir? | | | |
| A gynhelir cyfarfodydd ar gyfer defnyddwyr (staff a dysgwyr) ac a fydd y rhain yn arwain at ddeilliannau gwasanaeth a ellid eu hadnabod? | Cynhelir grwpiau defnyddwyr/ffocws er darganfod barnau dysgwyr a staff am y gwasanaeth. Bydd y fforymau yma wedyn a mewnbwn i gylch cynllunio'r gwasanaeth. | Mae yna ddeilliannau positif a ellid eu hadnabod, o geisiadau neu gynigion defnyddwyr. | Cofnodion fforymau Tystiolaeth wedi'i gofnodi o weithredu ar adborth a dderbyniwyd. |
| 2.1.4 Pa mor effeithiol yw cyfathrebu o fewn a gan y gwasanaeth? | | | |
| A oes yna gyfarfodydd staff rheolaidd ac a yw staff yn ymgysylltu yn weithredol yng nghynllunio a chyflwyno'r gwasanaeth? | Fe fydd staff yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae eu mewnbwn yn penderfynu cynllunio a chyflwyno'r gwasanaeth. | Teimla aelodau staff y gwasanaeth y gwerthfawrogir ac y gweithredir ar eu cyfraniadau | Cofnodion (cyfarfodydd tîm staff) |
| A yw'r gwasanaeth yn defnyddio ystod o ddulliau cyfathrebu gyda'i defnyddwyr ac a yw'r dulliau rheini yn effeithiol? | Defnyddia'r gwasanaeth ystod o ddulliau cyfathrebu (traddodiadol a thechnolegol) I gynnal trafodaeth a'i defnyddwyr. | Mae defnyddwyr, staff a dysgwyr fel ei gilydd yn ymgysylltu yn weithredol yn y cyfathrebu hwn. | "Hoffiadau" cyfryngau cymdeithasol Ymatebion arolygon llyfrgell Cofnodion fforymau Ystadegau ymholiadau |

2.2 Gwella ansawdd

| Awgrym Allweddol | Dangosydd Effaith | Dangosydd Cyflawniad | Tystiolaeth |
|--|--|---|--|
| 2.2.1 Pa mor effeithiol y bydd y gwasanaeth yn cynnwys adborth dysgwyr yn ei gynlluniau a'i weithredu? | | | |
| A fydd y gwasanaeth yn defnyddio ystod o ddulliau i gasglu adborth dysgwyr ac oes yna dystiolaeth bod y gwasanaeth yn gweithredu ar hyn ac wedyn yn adrodd yn ôl i ddysgwyr? | Defnyddia'r gwasanaeth ei ddulliau ei hun a rhai y coleg er mwyn derbyn adborth dysgwyr a'i gynnwys yn y broses gwneud penderfyniadau. | Rhoddir adborth dysgwr, yn enwedig pan mae'n adnabod angen a ellid ei gwrdd, yn fewnbwn i'r broses gwneud penderfyniadau. | Teithiau Dysgu. Arolygon. |
| 2.2.2 Pa mor effeithiol y bydd y gwasanaeth yn ymateb i faterion neu bryderon a godwyd? | | | |
| A rennir adborth dysgwyr gyda staff y gwasanaeth ac a ydynt yn cymryd rhan mewn gweithredu ar neu ymateb i'r fath adborth? | Mae'r gwasanaeth yn derbyn ac yn ymateb i adborth dysgwyr a gyflwynwyd i rannau eraill o'r coleg am ei wasanaethau. | Fe fydd y gwasanaeth yn ymateb yn brydlon ac yn gweithredu ble yn addas neu'n bosib ar faterion a godwyd | Panelau dysgwyr Arolygon dysgwyr Cwynion |
| Sut a ddefnyddir adborth defnyddwyr a gwybodaeth reolaethol (GRh) i osod blaenoriaethau a chreu gwelliannau yn y gwasanaeth? | Defnyddir adborth defnyddwyr a GRh i benderfynu cynllunio a gweithredu'r gwasanaeth. | Gwelliannau i'w wasanaeth a ellid eu cysylltu i adborth dysgwyr a/neu GRh | Adborth defnyddwyr. Gwybodaeth reolaethol. Dadansoddiadau dysgwyr. Dogfennau cynllunio ac adolygu gwasanaeth. |

| Awgrym Allweddol | Dangosydd Effaith | Dangosydd Cyflawniad | Tystiolaeth |
|---|---|--|--|
| 2.2.3 Pa mor ddibynadwy yw hunan-asesiad y gwasanaeth? | | | |
| A oes yna broses hunan asesu effeithiol mewn lle? | Ymgymera'r gwasanaeth ac ymarfer hunan asesu dibynadwy gan ddefnyddio model mewnol neu allanol | Cyfeiria hunan asesu'r gwasanaeth at feysydd sydd angen eu gwella; adolygir y rhain a gweithredir arnynt | Dogfen hunan asesu |
| Sut y mae hunan asesu'r gwasanaeth yn cyfaddasu i system ansawdd ehangach y coleg? | Mae yna berthynas eglur rhwng hunan asesu'r gwasanaeth a system ansawdd ehangach y coleg | Bwydir deilliannau hunan asesu'r gwasanaeth i systemau ansawdd a chynlluniau'r coleg ar lefelau addas. | Dogfennau a chynlluniau ansawdd y coleg |
| A yw'r gwasanaeth wedi gweithredu unrhyw adolygiad allanol neu annibynnol o'r gwasanaeth? | Fe fydd y gwasanaeth yn gwahodd neu drefnu am asesu annibynnol o'i ddarpariaeth gan ddefnyddio adolygwyr mewnol neu allanol | Derbynia'r gwasanaeth asesiad annibynnol a phositif | Adroddiadau adolygu annibynnol Ymarferion meincnodi Dangosyddion Cyflawniad CoLRiC |

2.3 Gweithio mewn partneriaeth

| Awgrym Allweddol | Dangosydd Effaith | Dangosydd Cyflawniad | Tystiolaeth |
|---|--|--|--|
| 2.3.1 A yw'r gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth ac os felly beth yw buddion hynny? | | | |
| A yw'r gwasanaeth yn gweithio gyda sefydliadau eraill i ddarparu cyfleoedd adnoddau ychwanegol i ddysgwyr a staff? | Cydweithia'r gwasanaeth a sefydliadau eraill i ehangu a gwella mynediad at adnoddau i ddefnyddwyr. | Gwna defnyddwyr coleg ddefnydd effeithiol o'r adnoddau hyn, gan arwain at arbediad ariannol i'r sefydliad. | Data cynllun llyfrgell ranbarthol Data rhyng-fenthyciadau llyfrgell |
| 2.3.2 Sut fydd y gwasanaeth yn ymgysylltu yn effeithiol mewn darparu adnoddau ar y cyd, e.e. cyrsiau AU, rhaglenni cyswllt ysgolion, ac ati? | | | |
| Yng nghyswllt darpariaeth ar y cyd, a fydd y gwasanaeth yn gweithio'n effeithiol a darparwyr eraill i sicrhau cwrdd ag anghenion dysgwyr? | Gweithia'r gwasanaeth yn frwdfrydig a darparwyr eraill er sicrhau cwrdd ag anghenion unigol dysgwyr. | Cyflawnir anghenion defnyddwyr o'r coleg | Adborth dysgwyr Adborth allanol Data ansawdd coleg |

2.4 Rheoli adnoddau

| Awgrym Allweddol | Dangosydd Effaith | Dangosydd Cyflawniad | Tystiolaeth |
|---|---|--|---|
| 2.4.1 A yw natur staffio'r gwasanaeth yn addas? | | | |
| A oes yna staff digonol i gyflwyno gwasanaeth effeithlon? | Mae yna staff digonol i gwrdd â gofynion dysgwyr. | Mae'r gymhareb staff y gwasanaeth (cyfradd llawn amser) yn erbyn dysgwyr yn well na 1:1,000 | Data staff |
| A yw staff yn meddu ar gymwysterau, hyfforddiant a phrofiad addas? | Mae gan staff gymwysterau, profiad a mynediad at hyfforddiant sy'n addas i'w swyddogaeth. | Mae 50% fan leiaf o staff y gwasanaeth yn gweithio tuag at gymhwyster addas | CVs staff Manylion datblygu staff |
| 2.4.2 A gefnogir staff yn eu Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)? | | | |
| A gefnogir staff i gymryd rhan mewn gweithgarwch DPP oddi fewn y coleg ac yn allanol? | Cefnogir staff i gymryd rhan mewn gweithgarwch DPP oddi fewn y coleg ac yn allanol | Bydd staff llawn amser yn ymgymryd ag o leiaf 20 awr o DPP y flwyddyn (pro rata i staff rhan amser) | Manylion datblygu staff |
| 2.4.3 A rennir ymarfer da gan y gwasanaeth yn effeithiol oddi fewn i a thu allan i'r sefydliad? | | | |
| Sut fydd y gwasanaeth yn rhannu ymarfer da gyda gweddill y sefydliad ac yn allanol gyda cholegau/gwasanaethau eraill? | Rhanna'r gwasanaeth ymarfer da oddi fewn y tîm a gyda rhannau eraill o'r coleg. | Ymgysyllta'r gwasanaeth a gweithgarwch coleg er hybu ymarfer da, ac fe rennir ymarfer da mewn modd gweithredol oddi fewn y tîm | Gweithgarwch / achlysuron coleg Gweithgarwch / achlysuron gwasanaeth |

| Awgrym Allweddol | Dangosydd Effaith | Dangosydd Cyflawniad | Tystiolaeth |
|--|--|---|--|
| 2.4.4 Sut fydd y gwasanaeth yn rheoli yn effeithiol adnoddau dysgu? | | | |
| Pa mor effeithiol y rheolir y gyllideb adnoddau dysgu? | Rheolir cyllideb y gwasanaeth yn effeithiol ac yn deg er cyllido darpariaeth adnoddau i ddysgwyr a sicrhau gwerth gorau. | Bodlonir 90% o ddysgwyr gan y ddarpariaeth adnoddau dysgu | Data cyllid Adborth dysgwyr |
| Pa mor effeithiol yw'r gwasanaeth o ran rheoli mynediad at adnoddau? | Rheolir yn effeithiol mynediad at adnoddau'r gwasanaeth er sicrhau bod pob dysgwr a mynediad cyfartal gwaeth bynnag ble a sut astudiant, a'u lleoliad daearyddol | Darperir adnoddau mewn ystod o gyfryngau. Cefnogir mynediad at adnoddau ar gyfer y rheini sy'n astudio yn y gweithle neu'r gymuned. | Anwytho Marchnata'r gwasanaeth Addysg defnyddwyr Mynediad at e-adnoddau Cynnwys yr ADRh Catalog y Llyfrgell |
| A yw'r gwasanaeth yn hyrwyddo a marchnata ei hun yn llwyddiannus? | Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo ei hun yn weithredol ac yn llwyddiannus ar draws ystod eang o gyfryngau a thrwy amrywiol weithgareddau. | Mae gan hyrwyddo'r gwasanaeth effaith positif ac amlwg ar ddefnydd. | Sianeli cyfathrebu Achlysuron Gweithgarwch |

| Awgrym Allweddol | Dangosydd Effaith | Dangosydd Cyflawniad | Tystiolaeth |
|--|--|--|--|
| 2.4.5 A yw'r gwasanaeth yn darparu gwerth gorau, yn ariannol? | | | |
| A yw'r gwasanaeth yn sicrhau gwerth gorau, yn ariannol? | Mae'r gwasanaeth yn sicrhau gwerth gorau drwy gaffael cystadleuol a dyraniad teg o gyllidebau er cefnogi anghenion gwybodaeth ac adnoddau dysgwyr. | Defnyddir cyflenwyr fframwaith ar gyfer nwyddau safonol. Mae dyraniad cyllidebau yn gyfesur ag anghenion a gofynion meysydd cwricwlwm. Adnabyddir arbedion ariannol. | Defnydd o gyflenwyr fframwaith caffael Cynllun ariannol y gwasanaeth |
| A yw'r gwasanaeth yn creu incwm er ei gwneud yn fwy cost effeithlon? | Ymchwilir i ddulliau creu incwm ac, os ydynt yn addas, fe'i gweithredir. | Fe fydd y gwasanaeth yn creu incwm er mwyn adennill costau presennol, cymorthdal cyflwyno'r gwasanaeth neu hunan-gyllido agwedd o wasanaeth ble ellir ei gyfiawnhau a/neu iddo fod yn ymarferol. | Cynlluniau strategol / gweithredol |

Arwyddion Gradd

Rhagorol

Mae'r gwasanaeth yn adeiladu perthnasau gwaith da gyda'i rhanddeiliaid. Mae yna gysylltiadau rhagorol efo'r cwricwlwm ac mae staff yn ymgymryd yn rheolaidd â chefnogi cyflwyno'r cwricwlwm. Mae gan reolwr y gwasanaeth berthnasau gwaith da â'r rheolwyr cwricwlwm ac fe fydd ef/hi yn cymryd rhan yn uniongyrchol yn y broses cynllunio'r cwricwlwm. Mae strwythurau cyfathrebu yn dryloyw ac wedi'i diffinio'n amlwg. Defnyddia rheolwr a staff y gwasanaeth ystod o gyfleoedd, ffurfiol ac anffurfiol, i ymgysylltu â rheolwyr cwricwlwm, staff addysgu a dysgwyr i drafod sut gallai'r gwasanaeth gefnogi'r cwricwlwm orau, ac adnabod a gwerthuso adnoddau a gwasanaethau newydd. Gwna'r rheolwr a'r staff ddefnydd effeithiol o hyrwyddiadau wedi'i anelu at hysbysu staff am wasanaethau ac adnoddau newydd. Gallai staff feddu ar wybodaeth weithredol dda o'r cwricwlwm a'i gyflwyniad. Mae ymarfer yn gyson ar draws pob maes cwricwlwm a phwynt gwasanaeth.

Darpara'r gwasanaeth gwybodaeth ac anwytho ar gyfer aelodau newydd o staff sy'n caniatáu iddynt ddeall sut i gael y budd gorau o'r gwasanaeth. Mae'r rhain yn orfodol ar gyfer staff addysgu ac mae yna bresenoldeb da ynddynt. Cymera'r gwasanaeth ran mewn darparu Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ar gyfer staff addysgu, gan sicrhau bod eu gwybodaeth am wasanaethau ac adnoddau newydd yn gyfredol.

Bydd staff yn archwilio yn rhagweithiol i feddalwedd a thechnolegau newydd ac maent yn ganolog i ddatblygiad strategol Technoleg Gwybodaeth a Dysgu (TGD) y sefydliad. Cefnogir staff addysgu gan y gwasanaeth yng nghyswllt defnydd effeithiol o TGD ac mae gan y gwasanaeth rôl flaengar mewn datblygu a rhannu ymarferion arloesol. Cyfranna staff yn rhagweithiol tuag at ddatblygu deunyddiau dysgu cyfun a'r ADRh.

Mae cyflwyno sgiliau astudio a gwybodaeth yn rhan annatod o gyflwyno'r cwricwlwm ac mae wedi'i ymgorffori yn dda mewn ystod o gyrsgiau. Cymera staff ran mewn datblygu deunyddiau dysgu a gweithiant gyda staff addysgu i gefnogi cyflwyno sgiliau astudio a gwybodaeth. Gwahaniaethir cynnwys y deunyddiau a chefnogaeth hyn er cwrdd ag anghenion dysgu ystod o ddysgwyr. Gofynnir am adborth dysgwyr a staff addysgu ar yr agwedd yma o ddarpariaeth.

Mae'r amgylchedd ddysgu yn groesawgar, yn fywiog ac wedi'i gyflwyno yn dda. Fe'i cynlluniwyd i gefnogi ystod o arddulliau dysgu. Gallai defnyddwyr fanteisio o ystod o wahanol fathau o lefydd astudio, gan gynnwys fel grŵp neu yn unigol, cyfrifiaduron a Di-wifr. Mae cyfleusterau a gwasanaethau yn hygyrch ac mae dysgwyr ag anghenion penodol yn gallu defnyddio ystod addas o feddalwedd, caledwedd, dodrefn, ac ati.

Ymgysyllta'r gwasanaeth yn rhagweithiol â dysgwyr. Anogir hwy a chefnogir hwy yn eu dysgu, gan eu cynorthwyo i wneud y defnydd gorau o gefnogaeth, cyfleusterau ac adnoddau, i ddatblygu eu sgiliau a sicrhau eu bod yn ymddwyn mewn modd sy'n barchus at eraill. Gwahaniaethir gwasanaethau a chyfleusterau er cwrdd ag anghenion arbennig gwahanol grwpiau (e.e. AU, rhan-amser, dysgwyr gydag anawsterau a/neu anabledau dysgu, ac ati) ac i gefnogi gwahanol ddulliau o astudio (e.e. dysgu o bell, yn y gweithle, ac ati). Gallai dysgwyr gael at ystod addas o wasanaethau ac adnoddau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn ychwanegol at gwrdd ag anghenion cwricwlwm y dysgwyr, cyflwynna'r gwasanaeth ystod o weithgarwch cyfoethogi a anelir at hyrwyddo datblygiad cymdeithasol a diwylliannol y dysgwyr. Mae adnoddau'r gwasanaeth a chefnogaeth staff yn galluogi ac annog dysgwyr i archwilio eu diddordebau eu hunain. Datblyga staff yn rhagweithiol fentrau sy'n annog dysgwyr i archwilio a dathlu diwylliant Cymreig a'r iaith. Bodola cytundebau addas gyda phartneriaid allanol. Darpara hyn y cyfle i ddysgwyr i elwa ar wasanaethau a chasgliadau llyfrgelloedd addysg bellach, addysg uwch a cyhoeddus, yn lleol, ac fe hybir y cytundebau hyn yn weithredol i ddysgwyr a staff.

Derbynia pob dysgwr sesiwn anwytho sy'n eu galluogi iddynt gael mynediad i'r gwasanaeth a gwybod pa wasanaethau a chyfleusterau sydd ar gael. Ceir presenoldeb da yn y sesiynau anwytho ac fe'i cyflwynir mewn ffordd sy'n atyniadol, sy'n gwneud defnydd effeithiol o TGD ac a wahaniaethir i gwrdd ag anghenion a lefelau cwricwlwm dysgwyr. Mae sesiynau anwytho wyneb-yn-wyneb ar gael trwy gydol y flwyddyn ac, os yn berthnasol maent ar gael ar-lein neu drwy'r ADRh.

Lleolir y gwasanaeth mewn safle cryf oddi fewn y strwythur sefydliadol, gan sicrhau cylch gwaith traws-goleg a chynrychiolaeth gref ar lefel uwch reolaeth. Cynrychiolir y gwasanaeth ar ystod eang o bwyllgorau a grwpiau. Dengys uwch reolwyr ddealltwriaeth dda o'r gwasanaeth. Byddant yn annog a, lle'n briodol, cyfarwyddo rheolwyr haen ganol, arweinwyr a staff addysgu i gefnogi ei waith.

Mae lefelau staff yn addas ac mae staff yn meddu ar gymwysterau addas. Derbynia pob aelod o staff werthusiad rheolaidd, pryd adolygir perfformiad. Gosodir targedau heriol ond realistig a chytunir ar amcanion datblygiad proffesiynol. Cysylltir targedau ac amcanion datblygu proffesiynol i flaenoriaethau'r sefydliad a rhai gweithredol y gwasanaeth. Gallai staff gael mynediad at ystod o

ddatblygu proffesiynol mewnol ac allanol. Fe'i hanogir i ymgysylltu mewn DPP drwy fynychu cyfarfodydd a chynadledau, ymweld â darparwyr eraill ac ymgymryd â chymwysterau proffesiynol. Rhoddir cyfle i staff ddatblygu eu sgiliau iaith yn y Gymraeg. Rhennir a thrafodir deilliannau datblygu proffesiynol oddi fewn y tîm a, ble yn addas, gyda staff eraill gan gynnwys rheolwyr ac arweinwyr. Bydd pob aelod o staff yn gallu dangos cynefindra a gwerthoedd, nodau ac amcanion y sefydliad, ac fe ddeallant y cyfraniad y gwna'r gwasanaeth at amcanion y sefydliad.

Mae yna drefniadau hunan werthuso effeithiol wedi'i hen sefydlu mewn lle sy'n caniatáu i'r rheolwr gwasanaeth a'r rheolwr strategol gyda chyfrifoldeb am y gwasanaeth i fonitro a gwerthuso'r gwasanaeth. Defnyddir ystod eang o dulliau (gan gynnwys cynlluniau traws goleg) i ddarganfod ac ystyried adborth dysgwyr a staff. Pan yn addas, fe ddarpara rheolwr y gwasanaeth ymatebion personol i adborth gan ddysgwyr a staff. Rhennir a defnyddwyr unrhyw adborth a arweiniodd at newidiadau neu welliannau i'r gwasanaeth, rhennir y rhain a defnyddwyr. Rhennir deilliannau o adborth defnyddwyr gyda staff y gwasanaeth, ynghyd ac adnabod gweithredoedd ac ymatebion addas. Defnyddir y deilliannau hyn yn y broses cynllunio gwasanaeth. Gwna'r gwasanaeth ddefnydd addas o ddata system llyfrgell a meincnodi. Elwodd y gwasanaeth ar fod yn rhan o werthuso cymheiriaid allanol ac annibynnol (e.e. cynllun Achrediad Cymheiriaid CoLRiC) neu fe'i cynhwyswyd ar restr fer ar gyfer neu a dderbyniodd gwobr ansawdd (e.e. Beacon). Gwna'r gwasanaeth ddefnydd effeithiol o weithgarwch marchnata i hybu gwasanaethau presennol a newydd. Targedir gweithgareddau hyrwyddol, gan gysylltu gwasanaethau i grwpiau penodol o ddysgwyr. Cysylltir gweithgareddau hyrwyddol i flaenoriaethau a adnabuwyd yng nghynllun gweithredol blynyddol y gwasanaeth ac fe'i gwerthusir.

Da

Ymdrecha staff yn gyson i adeiladu perthnasau gwaith da gyda staff dysgu ac mae ganddynt ran yn achlysurol i'w chwarae mewn cynllunio cwricwlwm newydd neu gefnogi cyflwyno cwricwlwm. Mae gan reolwr y gwasanaeth berthnasau gwaith da a'r rheolwyr cwricwlwm ac fe gynhwysir ef/hi o bryd i'w gilydd yn y broses cynllunio cwricwlwm. Defnyddia'r rheolwr gwasanaeth ystod o gyfleon, ffurfiol ac anffurfiol i ymgysylltu â rheolwyr cwricwlwm, arweinwyr a staff dysgu i drafod sut gallai'r gwasanaeth gefnogi orau y cwricwlwm ac i adnabod a gwerthuso adnoddau a gwasanaethau newydd. Gwna'r rheolwr gwasanaeth a staff ddefnydd da o hyrwyddiadau wedi'i dargedu at hysbysu staff dysgu am adnoddau neu wasanaethau newydd. Gallai staff ddangos eu bod yn meddu ar wybodaeth dda o ystod cwricwlwm y sefydliad. Cofnodir yn dda cyfathrebu â'r meysydd cwricwlwm.

Darpara'r gwasanaeth gwybodaeth groesawu a sesiynau anwytho ar gyfer staff newydd, sy'n galluogi iddynt ddeall sut i gael y budd gorau o ddefnyddio'r gwasanaeth. Fe fydd staff yn archwilio yn weithredol am feddalwedd a thechnolegau newydd, gan gyfrannu yn weithredol at ddatblygiad deunyddiau dysgu ar-lein a'r ADRh. Rhanna'r staff ymarfer da a mynychant ddatblygiad proffesiynol gyda'r staff addysgu.

Ymgorfforir cyflwyno sgiliau astudio a gwybodaeth mewn cyrsiau niferus. Fe fydd staff yn cymryd rhan yn natblygiad deunyddiau dysgu yn ymwneud â sgiliau astudio a gwybodaeth a gweithiant gyda staff addysgu i gefnogi cyflwyno'r sgiliau hyn. Gwahaniaethir rhwng gweithgarwch dysgu er mwyn cwrdd ag anghenion ac arddulliau dysgwyr. Gofynnir am adborth gan ddysgwyr a staff dysgu, fel ei gilydd.

Mae amgylchedd y gwasanaeth yn groesawgar, wedi'i gyflwyno yn dda ac wedi'i gynllunio i gefnogi ystod o arddulliau dysgu. Manteisia ddefnyddwyr ar ystod o wahanol fathau o lefydd astudio, gan gynnwys fel grŵp neu yn unigol, gydag a heb gyfrifiaduron. Mae mwyafrif y cyfleusterau a gwasanaethau yn hygyrch ac mae dysgwyr ag anghenion penodol yn gallu defnyddio ystod addas o feddalwedd, caledwedd, dodrefn, ac ati.

Ymgysyllta'r gwasanaeth yn rhagweithiol a dysgwyr. Anogir hwy a chefnogir hwy yn eu dysgu, gan eu cynorthwyo i wneud y defnydd gorau o gefnogaeth, cyfleusterau ac adnoddau, i ddatblygu eu sgiliau a sicrhau eu bod yn ymddwyn mewn modd sy'n barchus at eraill. Gwahaniaethir, yn gyffredinol, gwasanaethau a chyfleusterau er cwrdd ag anghenion arbennig gwahanol grwpiau (e.e. AU, rhan-amser, dysgwyr gydag anawsterau a/neu anabledau dysgu, ac ati) ac i gefnogi gwahanol ddulliau o astudio (e.e. dysgu o bell, yn y gweithle, ac ati). Gallai dysgwyr gael at ystod addas o wasanaethau ac adnoddau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn ychwanegol at gwrdd ag anghenion cwricwlwm y dysgwyr, cyflwyno'r gwasanaeth ystod o weithgarwch cyfoethogi a anelir at hyrwyddo datblygiad cymdeithasol a diwylliannol y dysgwyr. Mae adnoddau'r gwasanaeth a chefnogaeth staff yn galluogi ac annog dysgwyr i archwilio eu diddordebau eu hunain. Datblyga staff yn rhagweithiol gynlluniau sy'n annog dysgwyr i archwilio a dathlu diwylliant Cymreig a'r iaith. Bodola cytundebau addas gyda phartneriaid allanol. Darpara hyn y cyfle i ddysgwyr i elwa ar wasanaethau a chasgliadau llyfrgelloedd addysg bellach, addysg uwch a cyhoeddus, yn lleol, ac fe hybir y cytundebau hyn yn weithredol i ddysgwyr a staff.

Mae gwybodaeth croeso ar gael ym mhob pwynt gwasanaeth, ar wefan y sefydliad a drwy'r ADRh - ble yn briodol, mae hwn ar gael yn ddwyieithog ac mewn cyfryngau hygyrch (e.e. print bras, Braille, sain). Bydd pob dysgwr yn cael y cyfle i dderbyn sesiwn anwytho fydd yn caniatáu iddynt ymgartrefu o ran defnyddio a manteisio ar y gwasanaeth, yn brydlon. Ceir presenoldeb da i'r sesiynau anwytho.

Lleolir y gwasanaeth mewn safle cryf oddi fewn y strwythur sefydliadol, gan sicrhau cylch gwaith traws-goleg a chynrychiolaeth gref ar lefel uwch reolaeth. Cynrychiolir y gwasanaeth ar ystod eang o bwyllgorau a grwpiau. Dengys uwch reolwyr ddealltwriaeth dda o'r gwasanaeth. Byddant yn annog a, lle'n briodol, cyfarwyddo rheolwyr haen ganol, arweinwyr a staff addysgu i gefnogi ei waith.

Mae lefelau staff yn addas ac mae staff yn meddu ar gymwysterau addas. Derbynia pob aelod o staff werthusiad rheolaidd, pryd adolygir perfformiad. Gosodir targedau heriol ond realistig a chytunir ar amcanion datblygiad proffesiynol. Cysylltir targedau ac amcanion datblygu proffesiynol i flaenoriaethau'r sefydliad a rhai gweithredol y gwasanaeth. Gallai staff gael mynediad at ystod o ddatblygu proffesiynol mewnol ac allanol. Fe'i hanogir i ymgysylltu mewn DPP drwy fynychu cyfarfodydd a chynadleddau, ymweld â darparwyr eraill ac ymgymryd â chymwysterau proffesiynol. Rhoddir cyfle i staff ddatblygu eu sgiliau iaith yn y Gymraeg. Rhennir a thrafodir deilliannau datblygu proffesiynol oddi fewn y tîm a, ble yn addas, gyda staff eraill gan gynnwys rheolwyr ac arweinwyr. Bydd pob aelod o staff yn gallu dangos cynefindra a gwerthoedd, nodau ac amcanion y sefydliad, ac fe ddeallant y cyfraniad y gwna'r gwasanaeth at amcanion y sefydliad.

Mae yna drefniadau hunan werthuso effeithiol wedi'i hen sefydlu mewn lle sy'n caniatáu i'r rheolwr gwasanaeth a'r rheolwr strategol gyda chyfrifoldeb am y gwasanaeth i fonitro a gwerthuso'r gwasanaeth. Defnyddir ystod eang o ddulliau (gan gynnwys cynlluniau traws goleg) i ddarganfod ac ystyried adborth dysgwyr a staff. Rhennir deilliannau o adborth defnyddwyr gyda staff y gwasanaeth, ynghyd ac adnabod gweithredoedd ac ymatebion addas. Bydd y gwasanaeth yn gwneud defnydd da o weithgarwch marchnata i

hyrwyddo gwasanaethau presennol a newydd. Bydd gweithgareddau hyrwyddo wedi'i dargedu, gan gysylltu gwasanaethau i grwpiau penodol, ac fe'i cysylltir i flaenoriaethau a adnabyddir yng nghynllun gweithredol blynyddol y gwasanaeth.

Digonol

Defnyddia staff ystod o gyfleon, yn ffurfiol ac anffurfiol, i ymgysylltu â rheolwyr cwricwlwm, arweinwyr a staff addysgu ond cyfyngedig yw'r effaith. Mae gan reolwr y gwasanaeth berthnasau gwaith da gyda rhai rheolwyr cwricwlwm ond prin anaml y bydd ef/hi yn cymryd rhan yn y broses cynllunio cwricwlwm. Mae yna systemau mewn lle i alluogi staff addysgu i gyflwyno ceisiadau am wasanaeth neu stoc, ond isel yw'r diddordeb. Mae'r dulliau o hyrwyddo gwasanaethau ac adnoddau heb fawr o strwythur a'i lwyddiant yn gyfyngedig. Mae gan staff wybodaeth gyfyngedig o ystod cwricwlwm y sefydliad.

Bydd staff yn archwilio i feddalwedd a thechnolegau newydd fel y derbynnir hwy gan y sefydliad. Mae gwaith datblygu TGD gyda staff addysgu yn gyfyngedig ac fe gyfranna staff ond ychydig tuag at ddatblygiad deunyddiau dysgu ar-lein a'r ADRh.

Mympwyol yw cyflwyniad sesiynau sgiliau astudio a gwybodaeth. Bydd staff yn datblygu deunyddiau dysgu (gan gynnwys rhai ar-lein) ond nid oes cysylltiad rheolaidd gyda chyflwyno'r cwricwlwm. Gwahaniaethir rhwng gweithgareddau dysgu er mwyn cwrdd ag anghenion dysgwyr. Derbynnir yn achlysurol adborth gan ddysgwyr a staff dysgu.

Darpara'r gwasanaeth wybodaeth croeso i ddysgwyr a staff newydd. Mae amgylchedd y gwasanaeth yn groesawgar ac mae'n addas at arddulliau dysgu gwahanol. Manteisia ddefnyddwyr ar ystod o wahanol fathau o lefydd astudio, gan gynnwys fel grŵp neu yn unigol, gydag a heb gyfrifiaduron. Mae mwyafrif y cyfleusterau a gwasanaethau yn hygyrch ac mae dysgwyr ag anghenion penodol yn gallu ceisio am feddalwedd, caledwedd, dodrefn, ac ati.

Yn ychwanegol at gwrdd ag anghenion cwricwlwm y dysgwyr, cyflwyno'r gwasanaeth ystod gyfyngedig o weithgarwch cyfoethogi a anelir at hyrwyddo datblygiad cymdeithasol a diwylliannol y dysgwyr. Bydd staff yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n annog dysgwyr i archwilio a dathlu diwylliant Cymreig a'r iaith. Bodola rhai cytundebau gyda phartneriaid allanol. Darpara hyn y cyfle i ddysgwyr i elwa ar wasanaethau a chasgliadau llyfrgelloedd addysg bellach, addysg uwch a cyhoeddus, yn lleol.

Lleolir y gwasanaeth mewn safle cryf oddi fewn y strwythur sefydliadol, gan sicrhau cylch gwaith traws-goleg ond mae cynrychiolaeth ar lefel uwch reolaeth yn wan. Cynrychiolir y gwasanaeth ar rhai pwyllgorau a grwpiau. Ceir cefnogaeth gyfyngedig gan uwch reolwyr.

Mae lefelau staffio yn dderbyniol ac mae staff yn meddu ar gymwysterau addas. Derbynia pob aelod o staff werthusiad rheolaidd, pryd adolygir perfformiad. Gosodir targedau heriol ond realistig a chytunir ar amcanion datblygiad proffesiynol. Cysylltir targedau ac amcanion datblygu proffesiynol i amcanion y gwasanaeth. Gallai staff gael mynediad at ystod o ddatblygu proffesiynol mewnol. Bydd rheolwr y gwasanaeth yn mynychu cyfarfodydd allanol. Rhoddir cyfle i staff ddatblygu eu sgiliau iaith yn y Gymraeg. Trafodir a rhennir oddi fewn y tîm, yn achlysurol, deilliannau datblygu proffesiynol. Bydd rhai aelodau staff yn gallu dangos cynefindra a gwerthoedd, nodau ac amcanion y sefydliad.

Defnyddia rheolwr y gwasanaeth ystod eang o arddulliau (gan gynnwys cynlluniau traws-goleg) i ddarganfod ac ystyried sylwadau dysgwyr a staff. Rhennir deilliannau adborth defnyddwyr efo staff y gwasanaeth a gweithredoedd angenrheidiol a adnabuwyd. Mae yna broses hunan-asesu blynyddol a chynllun gweithredol blynyddol ond nid yw'r rhain o reidrwydd yn cysylltu i nac yn dylanwadu ar Adroddiad Hunan Asesu (AHA) y sefydliad nac ei gynlluniau gweithredol na strategol. Defnyddia'r rheolwr data meincnodi a data o system rheoli'r llyfrgell. Gwna'r gwasanaeth cyfyngedig o weithgareddau marchnata i hyrwyddo gwasanaethau presennol a newydd. Targedir rhai gweithgareddau hyrwyddol, gan gysylltu gwasanaethau i grwpiau defnyddwyr penodol.

Anfoddhaol

Cyfyngir ymgysylltu a staff dysgu i'r anffurfiol a chyfleoedd byrfyfyr. Bydd gan y rheolwr y gwasanaeth gysylltiad achlysurol gyda rheolwyr cwricwlwm a phrin anaml, os o gwbl, y bydd ganddi hi/ganddo ef ran yn y broses rheoli cwricwlwm. Mae yna systemau mewn llai i ganiatáu staff addysgu i gyflwyno ceisiadau am wasanaeth neu adnoddau ond mae cyfranogiad yn isel. Mae'r dull o hyrwyddo'r gwasanaeth a'r adnoddau heb strwythur ac yn gyfyngedig ei lwyddiant. Ychydig o wybodaeth sydd gan y staff am ystod cwricwlwm y sefydliad.

Ychydig iawn o ran neu gyfle, os o gwbl, fydd gan staff i archwilio meddalwedd newydd neu dechnolegau a fabwysiadwyd gan y sefydliad. Gwna staff gyfraniad bychan at ddatblygu deunyddiau dysgu ar-lein a'r ADRh.

Datblyga staff ddeunyddiau dysgu sgiliau astudio a gwybodaeth (gan gynnwys ar-lein) ond ychydig iawn o gyfranogiad gan y cwricwlwm sydd yna. Ni fydd staff yn cymryd rhan mewn cefnogi cyflwyno'r cwricwlwm ac mae defnydd o adnoddau ar-lein yn isel.

Mae gwybodaeth croeso ar gael ym mhob pwynt gwasanaeth. Bydd cyfle i ddysgwyr dderbyn sesiwn anwytho ond mae cyfranogiad yn siomedig. Nid yw'r amgylchedd dysgu yn groesawgar ac fe'i cynlluniwyd yn wael. Nid yw'r gwasanaeth yn cwrdd ag anghenion dysgwyr. Bydd staff yn gweithio a dysgwyr mewn modd cyfyngedig, gydag ond ychydig o gefnogaeth i weithgarwch cyfoethogi. Nid yw dysgwyr yn gallu cael at wasanaethau nac adnoddau yn y Gymraeg. Ychydig o gymryd rhan sydd yna mewn gweithgareddau a anelir at annog dysgwyr i archwilio a dathlu diwylliant Cymru a'i hiaith.

Lleolir y gwasanaeth yn wael oddi fewn strwythur y sefydliad ac mae cynrychiolaeth ar lefel uwch reolaeth yn wan. Cyfyngedig yw cynrychiolaeth y gwasanaeth ar bwyllgorau a gweithgorau'r coleg. Cyfyngedig hefyd yw cefnogaeth gan uwch reolwyr.

Mae lefelau staffio yn isel ac nid yw staff gwastad a chymwysterau addas. Bydd mwyafrif y staff yn derbyn gwerthusiad staff pryd trafodir perfformiad, gosodir targedau a chytunir ar amcanion datblygu proffesiynol. Cyfyngir cyfleoedd datblygu proffesiynol i gyfleoedd mewn neu allanol nad ydynt yn costio. Cyfyngedig yw'r cyfleoedd i un ai dysgu neu ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg. Ni does trefn ar gyfer cofnodi neu rannu deilliannau datblygu proffesiynol. Nid yw staff yn gyfarwydd â gwerthoedd, nodau nac amcanion y sefydliad.

Amheus yw'r cysylltiad rhwng y broses o gynllunio yn weithredol y gwasanaeth a chynllun strategol a gweithredol y sefydliad ac fe wneir ond defnydd cyfyngedig o'r adborth a dderbynnir gan ddefnyddwyr a staff y gwasanaeth. Defnyddia rheolwr y gwasanaeth ond ystod gyfyngedig o ddulliau i ddarganfod a chymryd i ystyriaeth barnau dysgwyr a staff. Ni rennir a staff y gwasanaeth deilliannau adborth defnyddwyr. Nid oes cysylltiad rhwng hunan asesiadau na chynlluniau gweithredol y gwasanaeth ac Adroddiad Hunan Asesu, cynllun gweithredol na chynllun strategol y sefydliad. Ychydig o ddefnydd a wna rheolwr y gwasanaeth o ddata meincnodi na data o system rheoli'r llyfrgell.

Ychydig o ddefnydd a wna'r gwasanaeth o weithgarwch marchnata er hybu gwasanaethau presennol. Mae gweithgarwch hyrwyddol yn gyffredinol a heb fod wedi'i dargedu. Mae yna gytundebau cyfyngedig gyda phartneriaid allanol i ddarparu ar gyfer dysgwyr gyfleoedd i fanteisio ar wasanaethau a chasgliadau a ddarperir gan lyfrgelloedd addysg bellach, addysgu uwch a chyhoeddus, lleol. Ni hyrwyddir y rhain i ddysgwyr.

Gwerthuso Cymheiriad: y broses

Addaswyd hwn o'r broses a amlinellwyd yn ail argraffiad y twlcit (fforwm 2007).

Ceisio am Werthusiad Cymheiriad

Dylai'r sefydliad sy'n dymuno cael ei werthuso gan gymheiriad gysylltu â Rhwydwaith y Rheolwyr Adnoddau Dysgu gyda'u cais o leiaf wyth wythnos cyn yr amser yr hoffent gael eu gwerthuso. Fe fydd y Rhwydwaith yn adnabod dau asesydd o wahanol sefydliadau sy'n gallu ymgymryd â'r gwerthusiad. Cynhelir y gwerthusiad ar ddyddiad sy'n gyfleus i bob carfan. Oni chytunir yn wahanol, cymerir y gwerthusir y gwasanaeth cyfan.

Dogfennau Gwerthuso Cymheiriad

Tair wythnos cyn yr ymweliad, fe ddarpara'r rheolwr gwasanaeth y dogfennau canlynol ar gyfer y naill asesydd a'r llall:

- Adroddiad hunan-werthuso a ysgrifennwyd gan gyfeirio at y Twlcit
- Adroddiad blynyddol, adroddiad hunan asesu a dogfennau tebyg
- Cynllun gweithredu blynyddol neu ddogfennau cynllunio tebyg
- Strwythurau sefydliadol a gwasanaeth
- Rhestr o bwyllgorau / gweithgorau sy'n cynnwys cynrychiolaeth o'r gwasanaeth
- Dogfennau strategol y sefydliad a chynllunio gweithredol (neu ddetholiad allweddol ohonynt)
- Proffil cyllidol y gwasanaeth
- Proffil staffio'r gwasanaeth, gan gynnwys CVs a data DPP
- Cyhoeddiadau'r gwasanaeth
- Manylion ymgynghori â defnyddwyr
- Manylion y ddarpariaeth e.e. dogfennau yn ymwneud a chyfleusterau, adnoddau a gwasanaethau a ddarperir
- Unrhyw ddogfen arall a hoffai rheolwr y gwasanaeth dynnu at sylw'r aseswyr

Yr Adroddiad Hunan Asesu

Dylai'r adroddiad ddarparu'r aseswyr efo tystiolaeth feirniadol a gwerthusol am y gwasanaeth, gan gynnwys y gallu i wella. Fe ddylai'r AHA fod yn onest ac yn drylwyr; fe ddylai adnabod nodweddion da a rhagorol, a'r meysydd a ellid eu gwella. Fe ddylid cynnwys fel atodiad gynllun gweithredu sy'n cyfeirio at y meysydd i'w gwella. Dylai'r cynllun adnabod y person sy'n gyfrifol am bob gweithred, yr adnoddau sydd eu hangen, y dyddiad targed cwblhau, deilliannau a fwriedir a'r meini prawf ar gyfer gwerthuso i ba raddau y cyflawnwyd y deilliannau.

Cyn yr ymweliad defnyddia'r aseswyr y dogfennau a ddarparwyd gan y gwasanaeth i brofi arfarniadau a wnaethpwyd yn y AHA ac i adnabod meysydd i'w archwilio fel rhan o'r ymweliad.

Protocolau ar gyfer Aseswyr Cymheiriad

- Cysylltu â sefydliad cyn gynted â phosib wedi'r cyswllt cyntaf, i gadarnhau dyddiad yr asesu
- Cadarnhau efo rheolwr y gwasanaeth fod y sefydliad wedi cymeradwyo'r ymweliad asesu cymheiriad
- Derbyn a darllen y dogfennau cyn-asesu cyn yr ymweliad
- Penderfynu ar y cyd y profion archwilio a'r damcaniaethau a brofir yn ystod yr ymweliad asesu
- Penderfynu ar y cyd sut y cofnodir canfyddiadau ar y diwrnod
- Cytuno ar sut i rannu'r baich gwaith o flaen llaw, yn ystod ac wedi'r ymweliad asesu
- Cytuno o leiaf pythefnos o flaen llaw ar raglen y dydd ar gyfer yr ymweliad
- Ar ddiwrnod yr ymweliad, caniatáu amser digonol ar gyfer teithio
- Osgoi casglu tystiolaeth anecdotaidd
- Osgoi gwneud sylwadau personol yn ystod y dydd, wrth gwestiynu, wrth ddarparu adborth neu yn yr adroddiad
- Gweithredu ac ymddwyn mewn modd proffesiynol, gan osgoi cael ei thynnu i mewn i sgysiau personol gyda chydweithwyr sy'n cael eu hasesu.
- Sicrhau y cynhyrchir ac y cyfathrebir yr adroddiad o fewn yr amser a gytunwyd, a bod yn broffesiynol mewn caniatáu i'r sefydliad geisio am gywiriadau ffeithiol ac apelio yn erbyn graddau.

Gwerthuso Cymheiriad – agenda'r ymweliad

Mae angen i'r ddau asesydd a'r rheolwr gwasanaeth gytuno ar raglen y dydd ar gyfer yr ymweliad, o leiaf pythefnos cyn y dyddiad. Fe fydd y rhaglen yn arferol yn cynnwys ymweliadau a chynifer o bwyntiau gwasanaeth ag sy'n ymarferol a chynnwys yr elfennau canlynol:

- Cylchdaith o'r pwyntiau gwasanaeth
- Cyfarfod â dysgwyr
- Cyfarfod â staff addysgu
- Cyfweiliad â'r Uwch Reolir sydd â chyfrifoldeb am y gwasanaeth
- Cyfarfod â staff
- Cyfweiliad â rheolwr y gwasanaeth

Ar ddiwrnod yr ymweliad, darperir ystafell gyfleus a phreifat ar gyfer yr aseswyr gan y sefydliad.

Ar ddiwedd yr ymweliad fe ddylai'r aseswyr ddarparu adborth i reolwr y gwasanaeth a rhai unigolion allweddol eraill. Dylai aseswyr gynghori staff fydd yn bresennol yn y rhag drafodaeth bod yr adborth yn rhan o'r broses gwerthuso. Fe fydd yr adborth yn cynnwys canfyddiadau allweddol a darpar raddau, ond ni ellir herio'r rhain oni bai eu bod yn cynnwys anghywirdebau ffeithiol. Dylid ystyried y trafodaethau hyn yn gyfrinachol hyd nes cyhoeddir yr adroddiad terfynol. Dylai aseswyr gyflwyno eu canfyddiadau a'u graddau mewn modd sydd

- Yn strwythuredig ac eglur
- Yn sensitif i deimladau'r rhai sy'n derbyn yr adborth
- Yn cynnwys enghreifftiau wedi'i dewis yn dda
- Yn caniatáu cyfleoedd ar gyfer trafodaeth ar a chadarnhad o ganfyddiadau'r aseswyr
- Yn pwysleisio'r hyn a gyflawnir yn dda a'r hyn ellid ei wella, heb roi arweiniad

Adroddiad Hunan Werthuso

Cynhyrchir adroddiad drafft ffurfiol gyda graddau o fewn un mis o'r ymweliad. Cyflwynir hwn i'r rheolwr gwasanaeth, a bydd angen iddo ef/hi gyflwyno cais ysgrifenedig yn ymwneud â chywiriadau ffeithiol ac i apelio yn erbyn graddau o fewn pythefnos o'i dderbyn.

Fe fydd yna grynodedb gweithredol, llai o hyd na dwy dudalen A4 o hyd, yn cynnwys nodweddion rhagorol a da, meysydd ar gyfer gwelliant ac argymhellion. Fe fydd prif gorff yr adroddiad yn ymwneud a rhannau neilltuol o'r twlcit. Ni ddylai adborth ysgrifenedig ar bob Cwestiwn Allweddol yn unigol fod yn hwy na dwy ochr o bapur A4. Dyfarnir graddau unigol ar gyfer pob Cwestiwn Allweddol ynghyd â gradd gyffredinol ar gyfer y cyfan.